dyfarniadau cyflog 25/26, effaith newidiadau o ran cyfraniadau Yswiriant Gwladol y Cyflogwyr o fis Ebrill 2025 ymlaen a'r angen i ariannu'n llawn y cynnydd yng Nghyfradd y Cyflogwr o ran Pensiwn Cyflogwyr o fis Ebrill 2024 ymlaen. Effaith hyn fydd cynnydd o 5.1% yng Nghyllideb Dirprwyedig Ysgolion (ac eithrio'r cyllid a drosglwyddwyd i'r Setliad Dros Dro) a fydd yn codi i 8.3% unwaith y bydd cyllid a drosglwyddir i'r Setliad Dros Dro ac a fydd yn cael ei symud draw wedi'i gynnwys (ar gyfer Cyflog a Phensiynau Medi 2024). Ar lefel ysgolion unigol, bydd nifer y disgyblion yn effeithio ar y sefyllfa.

Mae Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru bellach wedi cymeradwyo eu Cyllideb 25/26 sy'n arwain at ardoll Tân sy'n rhan o Gyllideb Cyngor Sir Ceredigion. Mae'r canlyniad yn is na'r hyn a gafwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, fodd bynnag, mae'n parhau i arwain at gynnydd o 7.3% o ran cyfran Ceredigion. Mae hyn yn golygu bod angen Cyllideb Ardoll Tân o £5.7m ar gyfer 25/26, sy'n cyfateb i tua 0.6% ar Dreth y Cyngor.

Ym mis Rhagfyr 2023, cytunodd y Cyngor i ddull fesul cam i ymdrin â premïymau Treth y Cyngor y gellir eu codi ar Ail Gartrefi, gyda'r ail gam sef 150% yn dod i rym o fis Ebrill 2025. Amcangyfrifir y bydd y penderfyniad hwn yn darparu £1.1m o fudd ar gyfer Cyllideb 25/26 sy'n lleihau'r cynnydd heblaw am hynny yn Nhreth y Cyngor. O 01/04/24, mae 25% o'r holl arian a godir o Bremïymau Treth y Cyngor ar Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag Tymor Hir yn cael eu neilltuo a'u defnyddio i gefnogi'r [Cynllun Tai Cymunedol](#) yn amodol ar gap o £2.0m i'w gadw yn y gronfa wrth gefn cysylltiedig a glustnodwyd.

Yn ystod y 18 mis diwethaf, cynhaliwyd nifer sylweddol o arolygiadau allanol o'r Cyngor naill ai drwy reoleiddwyr allanol neu ddulliau annibynnol eraill. Ar y cyfan mae'r rhain wedi bod yn gadarnhaol iawn ac yn canmol perfformiad y Cyngor. Maent yn cynnwys:

Casgliad Asesiad Perfformiad y Panel Adolygu Cymheiriaid:

'Ceir tystiolaeth gref bod y Cyngor yn cyflawni ei swyddogaethau yn effeithiol ac o ystyried y galw mawr am wasanaethau ar hyn o bryd a'r pwysau ariannol hynod heriol, mae Cyngor Sir Ceredigion yn awdurdod lleol sy'n cael ei redeg yn dda.'

Casgliad Estyn:

'Mae awdurdod Ceredigion wedi sicrhau darpariaeth addysgol sefydlog o safon uchel i ddysgwyr, a hynny dros gyfnod estynedig. Mae hyn yn bennaf oherwydd arweinyddiaeth gadarn; strategaethau ac uchelgeisiau clir a bwriadus; a chydweithio agos ymysg swyddogion yr awdurdod, aelodau etholedig, ysgolion a phartneriaid eraill.'

Dywedodd Archwilio Cymru:

- 'Mae gan y Cyngor hanes cryf o gyflawni arbedion wedi'u cynllunio a mynd i'r afael â'i bwysau cyllidebol' a 'Mae'r Cyngor yn defnyddio ei gronfeydd wrth gefn mewn ffordd gynlluniedig a strategol' a 'Mae'r Cyngor wedi gwneud penderfyniadau i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol dros y tymor byr i'r tymor canolig.'*

O ganlyniad i Setliad Terfynol Llywodraeth Cymru, bydd y Gyllideb arfaethedig yn arwain at Ofynion yng Nghyllideb 25/26 o £209.164m a chynnydd yn Nhreth y Cyngor o 9.3% yn hytrach na 9.9%. Esbonnir hyn ymhellach yn ddiweddarach yn yr adroddiad. Byddai'r cynnydd arfaethedig yn Nhreth y Cyngor yn gyffredinol at ddibenion y Cyngor Sir (gan gynnwys yr ardoll Tân) yn golygu bod eiddo Band D yng Ngheredigion yn talu £1,886.57 - cynnydd o £160.52 (£13.38 y mis) ar gyfer 25/26.

3. Cyllideb Refeniw

Ar 18/02/25, derbyniodd y Cabinet adborth ffurfiol o gyfarfodydd y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ac o ganlyniad roedd penderfyniadau'r Cabinet yn cynnwys:

4. *I argymhell i'r Cyngor Llawn:*

- a) *mai Gofyniad y Gyllideb ar gyfer 25/26 yw £209.234m.*
 - b) *mai'r cynnydd yn Nhreth y Cyngor 25/26 at ddibenion y Cyngor Sir fydd 9.9%, gan gyfateb i gynnydd o £170.88 (sef £14.24 y mis) ar gyfer eiddo Band D.*
 - c) *bod y Rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn ddiweddaedig, fel y'i cyflwynwyd i'r Cabinet ar 21/01/25, yn cael ei chymeradwyo.*
 - d) *bod y Strategaeth Gyfalaf, fel y'i cyflwynwyd i'r Cabinet ar 21/01/25, yn cael ei chymeradwyo.*
5. *Os bydd y Setliad Terfynol yn wahanol i'r Setliad Dros Dro (hynny yw, yn cynnwys Cyllid Gwaelodol), nodi y bydd Cyllideb ddiweddaedig ac argymhelliad diweddaedig parthed Treth y Cyngor yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor Llawn.*

Gellir gweld yr adroddiad a'r penderfyniadau llawn yma:

[Agenda ar gyfer y Cabinet ddydd Mawrth, 18 Chwefror, 2025, 10.00 am](#)

[Agenda'r Cabinet ar ddydd Mawrth, 18 Chwefror, 2025, 10.00 am](#)

Yn dilyn hyn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru eu Cyllideb Derfynol a hefyd y Setliad Cyllid Llywodraeth Leol Terfynol ar 20/02/25:

[Cytundeb cyllideb yn sicrhau £100m ychwanegol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus | WG Newyddion](#)

[Setliad refeniw a chyfalaf llywodraeth leol 2025 i 2026 | LLYW.CYMRU](#)

Mae'r agweddau allweddol sy'n berthnasol i Geredigion yn cynnwys:

- Mae LIC wedi cyflwyno Cyllid Gwaelodol ar gyfer 25/26 ac mae hyn wedi'i osod ar 3.8%. Mae hyn o fudd i 9 awdurdod lleol gan gynnwys Ceredigion. Mae Llywodraeth Cymru wedi ychwanegu £8.2m yn ychwanegol i'r Setliad Terfynol i ariannu hyn, ond dim ond £287k yw'r budd ariannol i Geredigion.
- Mae eitemau eraill o fewn Cyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru yn cynnwys:

ATODIAD 1

- £30m o gyllid refeniw ar gyfer grant penodol 'Trawsnewid Llwybrau Gofal Newydd' i hybu buddsoddiad mewn gofal cymunedol sylfaenol. Manylion y grant a dyraniad Ceredigion i'w gadarnhau.
- £30m o gyllid refeniw ychwanegol ar gyfer Dechrau'n Deg i ddarparu gofal plant i blant dwy flwydd oed ledled Cymru (ymestyn i bob ardal Awdurdod Lleol). Manylion y grant a dyraniad Ceredigion i'w gadarnhau.
- £5m o gyllid cyfalaf ar gyfer Offer Chwarae i wella meysydd chwarae a chyfleusterau chwarae. Proses ymgeisio a gofynion cymwys i'w cadarnhau.
- £5m ar gyfer cyllid grant cyfalaf ar gyfer Canolfannau Hamdden i osod systemau gwresogi carbon isel. Proses ymgeisio i'w gadarnhau.
- £15m i ariannu cynllun peilot ar gyfer pobl ifanc 21 oed ac iau i dalu £1 yn unig am docyn bws sengl yng Nghymru.

Mae'r Cabinet eisoes wedi penderfynu y byddai unrhyw fudd o Gyllidebu Gwaelodol yn y Setliad Terfynol yn cael ei ddefnyddio i leihau'r cynnydd arfaethedig yn Nhreth y Cyngor.

O ganlyniad, argymhelliad diwygiedig y Cabinet i'r Cyngor Llawn yw:

- mai Gofyniad y Gyllideb ar gyfer 25/26 yw £209.164m.*
- mai'r cynnydd yn Nhreth y Cyngor 25/26 at ddibenion y Cyngor Sir fydd 9.3%, gan gyfateb i gynnydd o £160.52 (sef £13.38 y mis) ar gyfer eiddo Band D.*


Mae hyn o ganlyniad i'r sefyllfa ganlynol:

	<u>25/26</u> <u>£'000</u>
Adnoddau	
Cynnydd Setliad Terfynol Cyllid Allanol cyfun LIC (+3.8%)	144,225
Treth y Cyngor (9.3%)	64,939
Adnoddau ar gael	209,164
Cyllideb	
Cyllideb Sylfaen a ddygwyd ymlaen o'r flwyddyn flaenorol	193,572
Grantiau a drosglwyddwyd i Setliad wedi'u trosglwyddo i Wasanaethau	3,533
Pwysau Costau'r Gyllideb	11,794
Cynigion ar gyfer Lleihau'r Gyllideb (Atodiad 2)	(1,080)
Buddsoddi mewn Gwasanaethau (Casglu Gwastraff / Gorfodaeth Cynllunio)	827
Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor	518
Gofyniad Arfaethedig y Gyllideb	209,164

Felly, mae'r gyfres lawn o bapurau'r Gyllideb bellach wedi'u paratoi yn unol ag argymhelliad diwygiedig uchod y Cabinet. Mae'r Gyllidebau Rheoladwy sy'n deillio o'r rhain wedi'u diweddarau hefyd i adlewyrchu gofynion cyfrifyddu ar gyfer dyraniadau/ad-daliadau Mewnol (e.e. Gwasanaethau Cymorth) a thaliadau cyfalaf

i gyrraedd y Cyllidebau Net, gan gynnwys yr eitemau hyn. Felly, mae manylion y Cyllidebau Rheoladwy a Net arfaethedig i'w gweld yn Atodiad 3.

Ar sail Cyllideb arfaethedig 25/26, gellir dangos cost reoladwy uniongyrchol Gwasanaethau'r Cyngor fel a ganlyn (ac eithrio unrhyw ailddyrranu Gwasanaethau Cymorth neu daliadau cyfalaf fel Dibrisiant):



Fel y gwelir, byddai 75% o gyllideb y Cyngor yn cael ei wario ar Ysgolion a Dysgu Gydol Oes, Gofal Cymdeithasol a Llesiant Gydol Oes a Gwasanaethau Priffyrdd a'r Amgylchedd.

Ar ôl darparu ar gyfer costau sefydlog (yn bennaf) eraill (h.y. Lwfansau Aelodau, Ardoll Awdurdodau Tân, Costau Ariannu Cyfalaf a Chynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor), dim ond 14% (£29.6m) sy'n weddill ar gyfer holl Wasanaethau eraill y Cyngor.

Gwnaed addasiadau ar gyfer:

- * Cynnwys Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir (o GA), Ffioedd Cyfreithiol (o Ca LI) a Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru (o PaTh)
- ** Yn cynnwys PFI Penweddig (o CaC)
- *** Addasiad Cyllideb y Grŵp Arweinyddiaeth i ddosrannu cyllid yr Yswiriant Gwladol Cyflogwyr tybiedig i'r holl Wasanaethau

4. Beth mae elfen y Cyngor Sir o Dreth y Cyngor yn talu amdano?

Mae Treth y Cyngor yn dreth gyffredinol sy'n seiliedig ar werth eiddo ac nid yw'n gweithredu ar sail Gwasanaeth talu a defnyddio. Bydd preswylwyr yn gweld ac yn defnyddio gwahanol wasanaethau'r Cyngor ar wahanol adegau yn eu bywydau:

- Yn ifanc, byddai hyn yn dechrau gyda chofrestru genedigaeth ac yna'n symud ymlaen i gynnwys darparu a chludo i addysg Feithrin, Cynradd ac Uwchradd ac addysg Ôl-16, boed hynny addysg chweched dosbarth neu'n hyfforddiant galwedigaethol a mynediad at Wasanaethau Cerdd a Gwasanaethau Ieuencid.
- Fel oedolyn, gall hyn gynnwys defnyddio canolfannau Chwaraeon, defnyddio Llyfrgell, cerdded llwybr Arfordir Ceredigion (a hawliau tramwy cyhoeddus eraill), cofrestru i bleidleisio mewn Etholiad, cyflwyno cais Rheoliadau Cynllunio neu Adeiladu, bwyta mewn sefydliadau bwyd diogel a rheoledig, mynychu Amgueddfa neu Theatr y Cyngor, casglu eich sbwriel (ac yna ei waredu neu ei ailgylchu), defnyddio safle Gwastraff Cartref, gyrru ar Briffyrdd a Phontydd a gaiff eu cynnal a'u cadw (gan gynnwys graeanu'r ffyrdd dros y gaeaf), defnyddio gwasanaeth Bws cyhoeddus, goleuadau stryd ynghynn ar eich stryd a'r gallu i alw'r Gwasanaeth Tân ac Achub mewn argyfwng.
- Yn ddiweddarach, bydd preswlydd yn elwa o brisiau tocynnau teithio rhatach, ond yn y pen draw efallai y bydd angen mynediad at wasanaethau Gofal a Chymorth (gan ddefnyddio staff gofal cymdeithasol gwerthfawr sy'n derbyn cyflog sydd o leiaf yn Gyflog Byw Gwirioneddol yng Nghymru). Gall hyn gynnwys cefnogaeth a chyfarpar er mwyn gallu byw'n Annibynnol, gofal yn y cartref a lle mewn Cartref Gofal Preswyl. Gall hefyd gynnwys, yn y pen draw, Gwasanaeth y Crwner o bosib a chofrestru marwolaeth

Mae sawl elfen sy'n rhan o o'r cynnydd yn Nhreth y Cyngor gan Gyngor Sir Ceredigion ar gyfer 25/26, **gyda'r cynnydd craidd yn Nhreth y Cyngor er mwyn cynnal gwasanaethau presennol y Cyngor yn 4.3%**. Fodd bynnag, mae cynnydd yn ogystal yn yr ardoll Tân (a osodwyd gan Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru), effaith y cynnydd mewn Yswiriant Gwladol Cyflogwyr (a osodir gan y Canghellor) ynghyd â'r gefnogaeth drawsbleidiol ar gyfer buddsoddi yn y Gwasanaeth Gorfodi Cynllunio (£346k) a'r gwasanaeth casglu gwastraff (£481k):

	Cynnydd Treth y Cyngor %	Cynnydd mewn Treth Band D y Cyngor fesul mis
Cynnydd craidd	4.3%	£6.18
Ardoll Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru	0.6%	£0.81
Yswiriant Gwladol Cyflogwyr	2.9%	£4.17
Buddsoddiad mewn Casglu Gwastraff a Gorfodi Cynllunio	1.5%	£2.22
CYFANSWM	9.3%	£13.38

Sylwch nad yw'r ffigurau hyn yn cynnwys prae-septau'r Heddlu a'r Cynghorau Tref a Chymuned.

5. Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor

Mae tua 5,100 o aelwydydd yng Ngheredigion a mynediad i'r Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor ar hyn o bryd, sy'n diogelu'r rhai sydd ar incwm isel iawn a/neu'n hawlio Budd-daliadau ac yn darparu gostyngiad i'r rhai sy'n ei hawlio i dderbyn o hyd at 100% o'u gofyniad Treth y Cyngor mewn rhai amgylchiadau.

Mae'n fudd-dal prawf modd, felly bydd y swm y bydd person yn ei derbyn yn dibynnu ar incwm, cyfalaf ac amgylchiadau. Mae hyn yn golygu, hyd yn oed os yw rhywun yn gweithio, efallai y byddant yn dal i fod yn gymwys am rhywfaint o help. Fodd bynnag, nid ydynt yn gymwys i dderbyn cymorth os oes ganddynt gyfalaf o £16,000 neu fwy (ac eithrio gwerth y prif gartref).

Mae Cyfrifiannell Hawliau, sydd ar gael i'w defnyddio gan unrhyw un er mwyn gwirio a allent fod yn gymwys i dderbyn cymorth i'w gweld ar wefan y Cyngor:

<https://www.ceredigion.gov.uk/resident/benefits/>

<https://www.ceredigion.gov.uk/preswylwr/budd-daliadau/>

6. Strategaeth Gyfalaf a Rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn

Ni fu unrhyw newidiadau i'r Strategaeth Gyfalaf arfaethedig (Atodiad 4) a'r Rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn (Atodiad 5) a ystyriwyd gan y Cabinet ar 21/01/25 ac a ystyriwyd hefyd yng nghyfarfodydd Cyllideb y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu.

I grynhoi, y Rhaglen Gyfalaf ddiweddaedig a gynigir ar gyfer 24/25 yw £62m, a £31m ar gyfer 25/26. Cyfanswm y rhaglen gyfalaf arfaethedig ar gyfer y cyfnod rhwng 24/25 a 27/28 yw £121m. Mae'r cyllid craidd oddi wrth Lywodraeth Cymru ar gyfer 25/26 yn dod i gyfanswm o £6.466m.

Gyda'r setliad Cyfalaf gan Lywodraeth Cymru yn arwain at gynnydd o 10.5% mewn cyllid Cyfalaf craidd (£612k y flwyddyn ychwanegol), mae hyn o gymorth, ond mae'n dal i olygu bod lefel y cyllid cyfalaf craidd (sydd bellach yn £6.5m ar gyfer 25/26) yn is o ran arian parod na'r hyn a dderbyniwyd dros 15 mlynedd yn ôl (£7m yn 2008/09 a fyddai bellach yn werth dros £11m pe bai wedi cadw i fyny â chwyddiant yn gyffredinol).

Mae'r argymhellion allweddol o fewn y Rhaglen Gyfalaf ddiweddaraf yn cynnwys:

- £2.3m wedi'i gynnwys ar gyfer Menter Benthycy Priffyrdd Llywodraeth Leol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer yn 25/26 er mwyn ariannu Gwelliannau i'r Priffyrdd. Roedd Cyllideb Derfynol LIC yn cynnwys £120m dros 2 flynedd ar gyfer hyn (pwysoliad 60:40), felly mae'n awgrymu y gallai cyfran Ceredigion fod oddeutu £2.75m yn 25/26 a £1.85m ychwanegol yn 26/27. Nid oes unrhyw gynigion grant wedi'u derbyn hyd yma, felly bydd unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud i ddiweddariad y Rhaglen Gyfalaf nesaf ar ôl diwedd y flwyddyn.

- Dyraniadau Cyfalaf UKSPF ar gyfer 25/26 - Cyfanswm o £3.9m ar gyfer Canolbarth Cymru gan mai Ceredigion yw'r awdurdod arweiniol (gan ddosrannu £2.5m i Bowys a £1.4m i Geredigion).
- O fewn cyllideb cerbydau newydd y Fflyd mae £3m wedi'i glustnodi ar gyfer newid cerbydau casglu gwastraff craidd (ar gyfer 26/27 a 27/28 o bosib). Fodd bynnag, mae hyn yn destun ystyriaeth fanwl bellach wrth i wahanol agweddau ar fodel Casglu Gwastraff ddod yn fwy amlwg dros amser, gan gynnwys effaith rheoliadau Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr a fydd yn dod i rym yn ystod 2025.
- Pwyslais parhaus ar fesurau Effeithlonrwydd Ynni gyda chyllid o £2m wedi'i neilltuo dros gyfnod y rhaglen.
- Canolfan Trochi Cyfrwng Cymraeg (Ysgol Gymraeg) – Mae'r Cynllun wedi'i gynnwys yn y Rhaglen, ond mae bwlch ariannu yn destun trafodaethau parhaus gyda Llywodraeth Cymru.
- Cyllid o £1.7m ar gyfer adnewyddu elfennau allweddol (e.e. toeau a boeleri) sy'n dod i ddiwedd eu hoes.
- Buddsoddiad parhaus yng Nghartrefi Gofal Preswyl y Cyngor - £2m drwy gyfnod y rhaglen.

7. Dangosyddion darbodus ar gyfer Rheoli Cyfalaf a Rheoli'r Trysorlys

Mae'r Rhaglen Gyfalaf yn sail i'r Dangosyddion Darbodus arfaethedig sydd wedi'u hatodi (Atodiad 6). Mae hefyd yn angenrheidiol bob blwyddyn i ddirprwyo awdurdod i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael i weithredu symudiad o fewn cyfanswm y terfyn Awdurdodedig ar gyfer benthyca allanol, a'r ffin Weithredol.

8. Barn y Swyddog Adran 151 (Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael)

O dan Adran 25 Deddf Llywodraeth Leol 2003, mae'n ofynnol i'r Swyddog Adran 151 roi adroddiad yn ffurfiol i'r Cyngor fel rhan o'r broses o bennu'r Gyllideb a hynny ynglŷn â chadernid yr amcangyfrifon a wnaed wrth gyfrifo, a digonolrwydd y cronfeydd ariannol wrth gefn arfaethedig.

Mae'r Gyllideb 25/26 yn amodol ar gyflwyno a chyflawni Cynigion i Ostwng y Gyllideb sy'n dod i gyfanswm o £1.080m fel yr amlinellir yn Atodiad 2. Mae hyn gryn dipyn yn is na'r 70 eitem, gwerth cyfanswm o £5.8m, a welwyd yng Nghyllideb 24/25. Bydd y datblygiadau o ran cyflawni'r cynigion i Ostwng Gyllideb yn cael ei fonitro'n ddiwyd yn ystod y flwyddyn a hynny drwy'r trefniadau arferol ar gyfer rheoli ariannol a chynllunio busnes. Mae hyn yn cynnwys bod y cyllidebau diweddaraf yn ystod y flwyddyn yn cael eu diweddarau'n rheolaidd, cyflwyno adroddiadau Monitro Ariannol rheolaidd i'r Cabinet, ac adrodd ar eithriadau yn ôl yr angen.

Mae'r Grŵp Arweiniol a'r Rheolwyr Corfforaethol yn gwbl ymwybodol o'r her ariannol parhaus, ond mae dull rheoli ariannol cryf ac ystwyth sydd wedi'i wreiddio'n dda o fewn Tîm Ceredigion. Er enghraifft - cymryd camau i liniaru, cywiro neu neu

addasu yn ddigon cynnar yn y flwyddyn os bydd materion annisgwyl yn digwydd codi a sicrhau'r budd mwyaf posibl o gyfleoedd ariannu grantiau allanol. Nid yw dyfarniadau cyflog wedi'u pennu eto ar gyfer 25/26 ac efallai na fydd gwybodaeth am gyllid gan Lywodraeth Cymru tuag at gostau Yswiriant Gwladol Cyflogwyr yn hysbys tan y Gwanwyn / Haf, felly bydd rhywfaint o risg i'r gyllideb nes bod y materion hyn yn cael eu hamlygu.

Mae datganiad o Gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi a Balansau Cyffredinol y Cyngor ynghlwm ar ddiwedd Atodiad 3, a gallaf gadarnhau fod lefel amcangyfrifedig y Balansau Cyffredinol, sef £6.7m yn ddigonol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, gan ddod o fewn y rhychwant o 3% i 5% a gynlluniwyd. Gyda'r swm o fewn y Balansau Cyffredinol yn parhau i fod yn statig, bydd effaith cyllideb referniw gynyddol yw golygu bod y ganran yn disgyn dros gyfnod o amser. Gyda'r rhagolygon o'r sefyllfa i lawr i 3.2% erbyn 31/03/26, mae'n debygol y bydd angen ystyried cynyddu'r Balansau Cyffredinol cyn bo hir.

O ran y cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd penodol, cydnabyddwyd eisoes eu bod wedi cyrraedd eu hanterth yn ystod COVID ac y byddent yn disgyn mewn dull reoladwy gofalus wrth i'r defnydd arfaethedig o gronfeydd wrth gefn ddod yn eu blaen (e.e. arian cyfatebol Cynlluniau Cyfalaf - cynllun Amddiffyn Arfordir Aberaeron ac ysgol newydd Dyffryn Aeron). Mae'r rhagamcanion cyfredol yn dal i ddangos bod cronfeydd wrth gefn sydd wedi'u clustnodi yn uwch ar 31/03/26 na'r sefyllfa cyn COVID pan oedd cronfeydd wrth gefn a oedd wedi'u clustnodi, fel arfer oddeutu £20m.

Mae'n ymddangos fod rhagolygon y Gyllideb y tu hwnt i 25/26 yn parhau i fod yn heriol, gyda chyflwr cyffredinol economi'r DU yn ddiffygiol / twf economaidd gwastad a chwyddiant yn codi yn y tymor byr mae gan Lywodraeth y DU her ariannol sylweddol ar ei dwylo. Disgwylir i'r Canghellor gyhoeddi Cyllideb y Gwanwyn ar 26/03/25 a mae Adolygiad o wariant aml-flwyddyn hefyd yn parhau. Felly, bwriedir diweddarau'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn fanylach ar ôl y digwyddiadau hyn er mwyn hwyluso dull mwy manwl, ystyriol a phenodol.

Er gwaethaf y gallu i gynhyrchu cyllideb gytbwys, mae'r rhagolygon ariannol tymor canolig yn parhau i fod yn llwm ac mae'r cyllidebau referniw a chyfalaf yn parhau i fod dan bwysau sylweddol. Mae'r gofrestr Risg Gorfforaethol yn cydnabod hyn gyda'r Risg Ariannol yn parhau i fod ar 25 - y sgôr uchaf posibl. Mae angen ystyriaeth bellach er mwyn datblygu strategaeth tymor ariannol tymor canolig i'r tymor hir a fyddai'n sicrhau bod cynaliadwyedd ariannol hirdymor y Cyngor yn cael ei sicrhau.

Gan ystyried yr holl faterion a gynhwysir yn yr adroddiad hwn a'r broses Gyllidebol ehangach, gallaf gadarnhau bod amcangyfrifon arfaethedig y Gyllideb wedi'u paratoi mewn modd sy'n ddigon cadarn.

Argymhellion:

1. Nodi, ym marn y Swyddog Arweiniol corfforaethol: Cyllid a Chaffael (Swyddog Adran 151):
 - bod amcangyfrifon y Gyllideb wedi'u paratoi mewn modd ddigon cadarn.
 - bod lefel arfaethedig y Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd a'r Balansau Cyffredinol yn ddigonol ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod.
2. Cymeradwyo'r canlynol parthed y Gyllideb Refeniw:
 - a) Gofyniad y Gyllideb Refeniw ar gyfer 25/26 yw £209.164m, fel y nodir yn Atodiad 1, sy'n cynnwys y Cynigion ar gyfer lleihau'r Gyllideb a amlinellir yn Atodiad 2.
 - b) Cyllidebau a Rhagolwg 24/25 manwl diwygiedig 25/26, fel yr amlinellir yn Atodiad 3.
3. Cymeradwyo'r canlynol parthed Dangosyddion Cyfalaf a Darbodus:
 - a) Y Strategaeth Gyfalaf, fel yr amlinellir yn Atodiad 4.
 - b) Y Rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn, fel yr amlinellir yn Atodiad 5.
 - c) Y Dangosyddion Darbodus, fel yr amlinellir yn Atodiad 6.
 - d) Dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael i weithredu symudiad o fewn cyfanswm y terfyn Awdurdodedig ar gyfer benthyca allanol, a'r ffin Weithredol.
4. Nodi parthed y cynnydd arfaethedig yn Nhreth y Cyngor ar gyfer elfen Cyngor Sir Ceredigion:
 - a) Y cynnydd yn Nhreth y Cyngor craidd ar gyfer Gwasanaethau'r Cyngor yw 4.3%.
 - b) Mai £5.836m yw'r Ardoll Tân y cymeradwyodd Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer Cyngor Sir Ceredigion 25/26 (cynnydd o 7.3%). Mae hyn yn arwain at bwysau o ran costau o £301k ar Gyllideb y Cyngor 25/26 ac mae'n cyfateb i gynnydd o 0.6% yn Nhreth y Cyngor.
 - c) Mai effaith penderfyniadau'r Canghellor ar Yswiriant Gwladol y Cyflogwyr yn cyfateb i gynnydd o 2.9% yn Nhreth y Cyngor.
 - d) Mae buddsoddi yn y Gwasanaethau Casglu Gwastraff a Gorfodi Cynllunio yn cyfateb i gynnydd o 1.5% yn Nhreth y Cyngor.
5. Pennu Treth y Cyngor Band D o £1,886.57 ar gyfer 25/26 at ddibenion Cyngor Sir Ceredigion, sef cynnydd o £160.52 (£13.38 y mis) neu 9.3%.

Rheswm dros y penderfyniad:

Fel bod modd pennu Cyllideb 25/26 a chwblhau elfen y Cyngor Sir o'r Dreth y Cyngor.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

A oes asesiad effaith integredig wedi'i gwblhau? Os na, esboniwch pam.

Na - Mae'r gostyngiadau arfaethedig ar gyfer cyllideb 25/26 yn gyfyngedig ac nid ydynt yn cynnwys unrhyw newid mewn polisi.

Mae'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ar y Gyllideb wedi cael cyfle i roi ystyriaeth i'r materion Hirdymor, Integreiddio, Cynnwys ac Atal sy'n codi o'r argymhellion cyllidebol manwl fel rhan o'u hystyriaethau manwl o'r Gyllideb.

Trosolwg a Craffu:

Mae Cynigion y Gyllideb wedi'u hystyried gan y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu a gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu unigol a rhoddyd adroddiad i'r Cabinet ar 18/02/25 ar yr adborth.

Fframwaith Polisi:

Mae'r Gyllideb yn cefnogi pob agwedd ar Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027.

Amcanion Llesiant Corfforaethol:

Mae'r Gyllideb yn cefnogi pob agwedd ar Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027

Goblygiadau Cyllid a Chaffael:

Wedi eu nodi yn yr adroddiad.

Goblygiadau cyfreithiol:

Mae hyn yn rhan o'r broses o osod cyllideb ac o rwymedigaeth gyfreithiol y Cyngor i osod cyllideb erbyn 11 Mawrth. Mae'r Aelodau hefyd wedi derbyn cyngor ffurfiol oddi wrth y Swyddog Monitro ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau parthed pennu'r Gyllideb a'r goblygiadau posib pe na lwyddir i wneud hynny.

Goblygiadau staffio:

Mae Cynigion y Gyllideb wedi'u hystyried gan y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu a'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu unigol.

Goblygiadau o ran eiddo / asedau:

Rhan o'r broses o osod y gyllideb.

Risg(iau):

Wedi eu hamlinellu yn adroddiadau'r gyllideb.

Pwerau Statudol:

Deddf Llywodraeth Leol a Chyllid 1972.

Papurau Cefndir:

Adroddiad drafft ar y Gyllideb i'r Cabinet – 21/01/25

Adroddiad drafft ar y Gyllideb i'r Cabinet – 18/02/25

Atodiadau:

Atodiad 1: Crynodeb o Ofyniad y Gyllideb

Atodiad 2: Rhestr lawn o'r Cynigion ar gyfer Lleihau Cyllideb

Atodiad 3: Cyllidebau Rheoladwy a Net

(gan gynnwys Datganiad o Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd a Balansau Cyffredinol)

- Atodiad 4: Strategaeth Gyfalaf
Atodiad 5: Rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn
Atodiad 6: Dangosyddion darbodus

Swyddog Arweiniol Corfforaethol:

Duncan Hall - Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael

Swyddog)ion) Adrodd:

- Duncan Hall - Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael
Justin Davies - Rheolwr Corfforaethol: Cyllid Corfforaethol
Debbie Evans - Rheolwr Corfforaethol: Cyfrifeg y Gwasanaethau

Dyddiad:

21/02/25

CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

Report to: Full Council

Date of meeting: 03/03/25

Title: Joint Report of the Leader, Cabinet Member - Finance & Procurement, the Chief Executive and the CLO - Finance & Procurement upon the 25/26 Budget, including the Capital Strategy, the Multi-year Capital Programme and Prudential Indicators for Capital and Treasury Management.

Purpose of the report: To approve the Budget Revenue Budget Requirement for 25/26; to determine the level of Council Tax for County Council purposes for 25/26; to approve the Capital Strategy, the Multi-year Capital Programme and Prudential Indicators.

For: Decision

Cabinet Portfolio and Cabinet Member:

Cllr Bryan Davies Leader of the Council

Cllr Gareth Davies Cabinet Member for Finance & Procurement

All Cabinet Members

1. Background

On 22/01/25, Cabinet considered a report on the draft 25/26 Revenue Budget, an updated Multi-year Capital Programme and made draft recommendations on the proposed level of Council Tax for 25/26 and proposals regarding the use of Council Tax Premiums monies.

That report set out full details of the overall Budget position and was based on the WG Provisional Local Government Finance settlement. The report and decisions can be found at:

[Agenda for Cabinet on Tuesday, 21st January, 2025, 10.00 am](#)

[Agenda Cabinet ar Dydd Mawrth, 21ain Ionawr, 2025, 10.00 am](#)

Cabinet then referred the report for the views of the Budget Overview and Scrutiny Committees.

On 03/02/25, 06/02/25 and 07/02/25 respectively, the Overview and Scrutiny Co-ordinating Committee and the four thematic Overview and Scrutiny Committees received presentations from the Leader, Cabinet Member for Finance & Procurement and the CLO: Finance & Procurement and then considered the draft 25/26 Budget report and the Cabinet's recommendations (including 2 different

options for investment in the Planning Enforcement Service as well as investment in the Waste Collection Service). There was an opportunity for questions and input from Cabinet Members and officers regarding the relevant service areas. Each committee then provided a report back to the Cabinet on 18/02/25, which Cabinet considered as part of finalising their recommendations for Full Council.

2. Overview

The Provisional 25/26 Local Government Settlement resulted in Ceredigion receiving a 3.6% funding increase (ranked 15th out of 22 Local Authorities), which unfortunately also equated to Ceredigion receiving the lowest increase per head of population across all of Wales. The Final Local Government Settlement, by virtue of a funding floor being applied, results in a 3.8% funding increase which will assist with Council Tax considerations.

The estimated revenue Cost pressures being faced by the Council for 25/26 total £11.8m, equivalent to a Ceredigion specific inflation factor of 6.1%. This compares with general inflation now running at 3% (January 2025 CPI figure).

The Chancellor's changes to Employers National Insurance (NI) from April 2025 is a considerable burden and a key budget variable within the Council's Cost pressures. The net financial impact to the Council is currently estimated to be c£1.6m, which is the equivalent to a 2.9% Council Tax increase. Within those figures is £937k to support the externally commissioned Social Care sector (with this aspect alone being the equivalent of a 1.75% Council Tax increase).

Payaward costs are a key budget variable. The Council does not set Employee Payawards, nor does it take part in Payaward negotiations, this is done by Welsh Government for Teachers' Pay and by the UK Local Government Employers body for general Council staff. For 25/26 pay awards are assumed to fall back more in line with current CPI inflation and are estimated to cost c£2.9m.

Demands and pressures on Social Care related budgets are showing some signs of decreasing, with the underlying core cost pressures across the Pwrth Services being £1.052m lower compared with 24/25. This excludes the cost of proposed uplifts for externally commissioned Social Care services (e.g. Domiciliary Care, Direct Payments, Older Persons residential placements and Supported Living settings) for which £2.4m is being set aside, which is needed to cover the increase in the Real Living Wage to £12.60 per hour for registered Social Care Workers as well as the Employers National Insurance issue. The Children's Out of County placements budget is managed separately as a corporate budget, and there is a significant cost pressure in this area (£2.275m) despite the development of in county facilities due to come on stream shortly.

The Delegated Schools Budget has sufficient funding at an overall level to cover the known impact of 24/25 Pay awards, the estimated impact of 25/26 Pay awards, the impact of the Employers NI changes from April 2025 and the full funding of the April 2024 Employers Pension contribution rate increase. The resulting impact is a 5.1% increase in the Delegated Schools budget (excluding funding transferred into

the Provisional Settlement) which rises to 8.3% once funding transferred into the Provisional Settlement and passported across is included (for Sept 2024 Pay + Pensions). At an individual School level, the position will be impacted by Pupil numbers.

Mid & West Wales Fire Authority have now approved their 25/26 Budget which results in a Fire levy which forms part of Ceredigion County Council's Budget. The outcome is lower than in recent years, however it still results in a 7.3% increase for the Ceredigion's share. This means a Fire levy Budget of £5.7m is required for 25/26, which is the equivalent of c0.6% on Council Tax.

In December 2023, the Council agreed to a stepped approach to Council Tax premiums chargeable on Second Homes, with the second step to 150% becoming effect from April 2025. This decision provides an estimated £1.1m benefit to the 25/26 Budget which lowers an otherwise higher Council Tax increase. From 01/04/24, 25% of all monies raised from the Council Tax Premiums on Second Homes and Long-Term Empty Properties are being ringfenced and used to support the [Community Housing Scheme](#) subject to a cap of £2.0m to be held in the associated earmarked reserve.

During the last 18 months or so, there have been a significant number of external inspections of the Council by either external regulators or other independent means. These have largely been very positive and complimentary about the Council's performance. This has included:

The Peer Review Panel Performance Assessment concluded:

'There is strong evidence that the Council discharges its functions effectively' and that 'considering the current high service demands and very challenging financial pressures, Ceredigion County Council is a well-run local authority'.

Estyn concluded that:

'Ceredigion has ensured stable, high-quality educational provision for learners over an extended period. This is mainly due to robust leadership; clear and purposeful strategies and ambitions; and close co-operation among the authority's officers, elected members, schools and other partners'.

Audit Wales have commented that:

'The Council has a strong track record of delivering planned savings and addressing its budget pressures' and 'The Council uses its reserves in a planned and strategic way' and 'The Council has taken decisions to support its financial sustainability over the short to medium term.'

As a result of the WG Final Settlement the proposed Budget would result in a 25/26 Budget Requirement of £209.164m and a Council Tax increase of 9.3% instead of 9.9%. This is explained in more detail later in the report. The overall proposed Council Tax increase for County Council purposes (including the Fire levy) would mean a Band D property in Ceredigion paying £1,886.57 - an increase of £160.52 (£13.38 per month) in 25/26.

3. Revenue Budget

On 18/02/25, Cabinet received formal feedback from the Overview and Scrutiny Committee meetings and as a result the Cabinet decisions included:

4. *To recommend to Full Council that:*
 - a) *the 25/26 Budget Requirement is £209.234m.*
 - b) *the level of the 25/26 Council Tax for County Council purposes is a 9.9% increase, which would equate to a Band D increase of £170.88 (being £14.24 per month).*
 - c) *the updated Multi Year Capital Programme, as presented to Cabinet on 21/01/25, is approved.*
 - d) *the Capital Strategy, as presented to Cabinet on 21/01/25, is approved.*
5. *To note that if the Final Settlement is different to the Provisional Settlement (i.e. the inclusion of a Funding Floor), then a revised Budget and Council Tax recommendation will be presented to Full Council.*

The full report and decisions can be found at:

[Agenda for Cabinet on Tuesday, 18th February, 2025, 10.00 am](#)

[Agenda Cabinet ar Dydd Mawrth, 18fed Chwefror, 2025, 10.00 am](#)

WG then announced their Final Budget and also the Final Local Government Finance Settlement on 20/02/25:

[Budget agreement secures extra £100m for public services | WG News](#)

[Local government revenue and capital settlement 2025 to 2026 | GOV.WALES](#)

The key aspects relevant to Ceredigion include:

- WG have introduced a Funding Floor for 25/26 and this has been set at 3.8%. This benefits 9 Local authorities including Ceredigion. WG have added an additional £8.2m into the Final Settlement to fund this, but the financial benefit to Ceredigion is only £287k.
- Other items within the WG Final Budget included:
 - £30m revenue funding for a 'New Pathways of Care Transformation' specific grant to boost investment in community base care. Grant details and Ceredigion allocation tbc.
 - £30m extra revenue funding for Flying Start to deliver childcare to 2 year olds across Wales (an extension for all Local Authority areas). Grant details and Ceredigion allocation tbc.
 - £5m Capital funding for Play Equipment to improve play spaces and refurbish playgrounds. Application process and eligible entities tbc.
 - £5m for Capital grant funding for Leisure Centres to install low carbon heating systems. Application process tbc.
 - £15m to fund a pilot scheme for young people aged 21 and under to pay only £1 for a single bus fare in Wales.

Cabinet have previously determined that any benefit from a Funding Floor in the Final Settlement would be used to reduce the proposed Council Tax increase.

As a result Cabinet's revised recommendation to Full Council is that:


- a) the 25/26 Budget Requirement is £209.164m.*
- b) the level of the 25/26 Council Tax for County Council purposes is a 9.3% increase, which would equate to a Band D increase of £160.52 (being £13.38 per month).*

This is as a result of the following position:

	<u>25/26</u> <u>£'000</u>
Resources	
WG AEF Final Settlement Increase (+3.8%)	144,225
Council Tax (9.3%)	64,939
Resources available	209,164
Budget	
Base Budget b/f from previous year	193,572
Grants transferred into Settlement passported to Services	3,533
Budget Cost Pressures	11,794
Budget Reductions Proposals (Appendix 2)	(1,080)
Investment in Services (Waste Collection / Planning Enforcement)	827
Council Tax Reduction Scheme	518
Proposed Budget Requirement	209,164

The full suite of Budget papers has therefore now been prepared in accordance with Cabinet's revised recommendation above. The resulting Controllable Budgets have also then been updated to reflect accounting requirements for Internal allocations / recharges (e.g. Support Services) and Capital charges to arrive at Net Budgets including these items. The detail of the proposed Controllable and Net Budgets are therefore enclosed as Appendix 3.

Based on the proposed 25/26 Budget, the direct controllable cost of Council Services (excluding any re-allocation of Support Services or Capital charges such as Depreciation) can be illustrated as follows:



As can be seen 75% of the Council's budget would be spent on Schools & Lifelong Learning, Through Age Social Care & Wellbeing and Highways & Environmental Services.

After providing for other (largely) fixed costs (i.e. Members Allowances, Fire Authority Levy, Capital Financing Costs and the Council Tax Reduction Scheme), this only leaves 14% (£29.6m) for all other Council Services.

Adjustments made for:

* Includes Out of County Placements (from LG), Legal Fees (from L&G) & Social Care Wales Workforce Development Programme (from P&O)

** Includes Penweddig PFI (from F&P)

*** Leadership Group Budget adjusted to apportion assumed Employers National Insurance funding to all Services

4. What does the County Council element of Council Tax pay for?

Council Tax is a universal tax based on property values and does not operate on a pay as you use Services basis. Residents will see and access different Council services at different points in their lives:

- At a young age this would start with the registration of a birth and move on to include being transported to and accessing Nursery, Primary and Secondary School education through to Post 16 education, be that 6th Form education or more Vocational training and accessing Music and Youth Services.
- As an adult this could include using a Sports centre, using a Library, walking the Ceredigion Coast path (and other public Rights of way), registering to vote in an Election, putting in a Planning or Building Regulations application, eating in safe and regulated Food establishments, going to the Council's Museum or Theatre, having your Waste collected (and then disposed of or recycled), using a Household Waste site, driving on maintained Highways and Bridges (including roads being gritting during winter months), using a public Bus service, having Streetlights lit on your street and being able to call the Fire & Rescue Service for emergencies.
- In later years, a resident would benefit from Concessionary Fares on public transport, but ultimately may at some point need to access Care & Support services (using valued Social care staff who are paid at least the Real Living Wage in Wales). This could range from support and equipment to enable Independent living through to Domiciliary Home Care through to a placement in a Residential Care Home and ultimately the possible involvement of the Coroner's Service and the registration of a death.

There are several elements that make up the Ceredigion County Council component of the Council Tax increase for 25/26, **with the core Council Tax increase in order to maintain existing Council Services being 4.3%**. However, in addition, there is the Fire levy increase (set by Mid & West Wales Fire Authority), the impact of the increase in Employers National Insurance (imposed by the Chancellor) plus then the cross-party support for investment in the Planning Enforcement Service (£346k) and the Waste Collection service (£481k):

	Council Tax %age Increase	Increase in Band D Council Tax per month
Core increase	4.3%	£6.18
Mid & West Wales Fire Authority Levy	0.6%	£0.81
Employers National Insurance	2.9%	£4.17
Investment in Waste Collection & Planning Enforcement	1.5%	£2.22
TOTAL	9.3%	£13.38

Note these figures exclude the Police and Town & Community Council precepts.

5. Council Tax Reduction Scheme

There are c5,100 households in Ceredigion who currently access the Council Tax Reduction Scheme, which provides protection for those on very low incomes and / or claim Benefits and provides for claimants to receive a reduction of up to 100% of their Council Tax liability in certain circumstances.

It is a means tested benefit, so the amount a person will get will depend on their income, capital and circumstances. This means that even if someone is working, they may still qualify for some help. However, having capital of £16,000 or more (excluding the value of the main home) would mean someone is ineligible for support.

The Council's website has an Entitlement Calculator which anyone can use to see if they may potentially qualify for support:

<https://www.ceredigion.gov.uk/resident/benefits/>

<https://www.ceredigion.gov.uk/preswylwr/budd-daliadau/>

6. Capital Strategy & Multi-Year Capital Programme

There have been no changes to the proposed Capital Strategy (Appendix 4) and the Multi-Year Capital Programme (Appendix 5) that were considered by Cabinet on 21/01/25 and also considered in the Overview & Scrutiny Committee Budget meetings.

In summary the updated Capital Programme proposed for 24/25 is £62m and for 25/26 is £31m. The proposed Capital programme totals £121m over the period 24/25 to 27/28. Core funding from WG for 25/26 totals £6.466m.

With the Capital settlement from WG leading to a 10.5% increase in core Capital funding (extra £612k pa) this assists, but still means that the level of core capital funding (now £6.5m for 25/26) is still lower in cash terms than that received over 15 years ago (£7m in 2008/09 which would now be worth over £11m if it had kept pace with general inflation).

Key proposals within the latest Capital Programme include:

- £2.3m included for the WG Highways Local Government Borrowing Initiative in 25/26 to fund Highways Improvements. The WG Final Budget included £120m for this over 2 years (weighted 60:40), so indicatively the Ceredigion share could now be c £2.75m in 25/26 and a further c£1.85m in 26/27. No grant offers have been received as yet, so any amendments will be done in the next Capital Programme update after year-end.
- The UKSPF Capital allocations for 25/26 - Total of £3.9m for Mid Wales as Ceredigion is the lead authority (splitting down to £2.5m Powys and £1.4m Ceredigion).

- Within the Fleet replacement budget there is £3m earmarked for core Refuse vehicles replacement (nominally in 26/27 & 27/28). However this is subject to a further detailed consideration as various aspects of the Waste Collection model become clearer over time, including the impact of Extended Producer Responsibility regulations due to come in during 2025.
- A continued emphasis on Energy Efficiency measures with funding of £2m set aside over the life of the programme.
- Welsh Medium Immersion Centre (Ysgol Gymraeg) – The Scheme is included in the Programme, but a funding gap is the subject of ongoing discussions with WG.
- £1.7m of funding for key Buildings Component renewals (e.g. Roofs and Boilers) that are coming to end of life.
- A continued investment in the Council's Residential Care Homes - £2m over the life of the programme.

7. Prudential Indicators for Capital & Treasury Management

The Capital Programme forms the basis of the proposed Prudential Indicators which are attached (Appendix 6). It is also necessary each year to delegate authority to the CLO - Finance and Procurement to effect movement within the total of the Authorised limit of external borrowing, and the Operational boundary.

8. Opinion of the Section 151 Officer (CLO: Finance & Procurement)

Under Section 25 of the Local Government Act 2003, the Section 151 officer is required to formally report to the Council as part of the Budget setting process on the robustness of the estimates made for the purposes of the calculations and the adequacy of the proposed financial reserves.

The 25/26 Budget is subject to the delivery and achievement of Budget Reduction Proposals totalling £1.080m as outlined in Appendix 2. This is considerably lower than the 70 items totalling £5.8m seen in the 24/25 Budget. The progress in delivering the Budget Reductions proposals will be actively monitored during the year through the usual financial management and business planning arrangements. This includes Latest in year Budgets being updated on a regular basis, regular Financial Monitoring reports to Cabinet and exception reporting as required.

Leadership Group and Corporate Managers are fully aware of the ongoing financial challenges, but there is a strong and agile financial management approach which is well embedded within Team Ceredigion. For example - taking mitigating, corrective or alternative actions at an early enough stage in the year if unforeseen issues do arise and maximising the benefit of external grant funding opportunities. Payawards are yet to be determined for 25/26 and the outcome of WG funding towards Employers National Insurance costs may not be known until Spring / Summer, therefore there will be some level of budget risk until these matters crystallise.

A statement of the Council's Earmarked Reserves and General Balances is attached at the end of Appendix 3 and I am able to confirm that the estimated level of General Balances of £6.7m is adequate for the next financial year, falling within the planned range of 3% to 5%. With the amount in General Balances remaining static, the impact of an increasing revenue budget is that the %age declines over a period of time. With the position forecast to be down at 3.2% by 31/03/26, it is likely that an increase in General Balances will need to be considered before too long.

With specific Earmarked reserves, it was always recognised levels had peaked during COVID and would decline in a carefully managed way as the planned use of certain reserves occurred (E.g. Capital Schemes match funding - Aberaeron Coastal Defence scheme and the new Dyffryn Aeron school). Current projections still show earmarked reserves being higher as at 31/03/26 than the position pre COVID when earmarked reserves were typically c£20m.

Indications for the Budget outlook beyond 25/26 appear to remain challenging, with the general state of the UK economy current being lacklustre / flatlining economic growth and inflation rising in the near term, the UK Government has a considerable financial challenge on its hands. The Chancellor is due to announce a Spring Budget on 26/03/25 plus a multi-year spending Review is also ongoing. It is therefore intended to update the Medium Term Financial Strategy in more detail after these events to allow a more detailed, considered and focussed approach.

Notwithstanding that it is possible to produce a balanced budget, the medium term financial outlook remains poor and both the revenue and capital budgets remain under considerable pressure. The Corporate Risk register recognises this with the Financial Risk remaining at 25 – the highest possible score. Further consideration is required to develop a medium to long term financial term strategy that would ensure that the Council's long term financial sustainability is assured.

Taking all the matters contained in this report and the wider Budget process into account, I am able to confirm that the proposed Budget estimates have been prepared in a sufficiently robust manner.

Recommendations:

1. To note that in the opinion of the CLO: Finance & Procurement (Section 151 Officer):
 - the Budget estimates have been prepared in a sufficiently robust manner.
 - the proposed level of Earmarked Reserves and General Balances is adequate in respect of the forthcoming financial year.
